


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn / Ffacs: (01824) 703797
e-bost: cyngortrefrhuthun@sirddinbych.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS

Tel / Fax: (01824) 703797

e-mail: ruthintowncouncil@denbighshire.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

22 Ebrill 2014

At Faer y Dref a'r Cyngorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 28 EBRILL 2014** am **7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

Dafydd Williams

Dafydd Williams
Clerc y Dref

AGENDA

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**
Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.
- 3. ADRODDIAD Y MAER**
- 4. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 5. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**
I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2014.
- 6. MATERION YN CODI**
- 7. PWYLLGOR AMWYNDERAU**
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2014.
- 8. PWYLLGOR CYNLLUNIO**
I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2014.

9. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) DRYSAU AGORED SIR DDINBYCH

I dderbyn ac ystyried infois gan Gadwyn Clwyd am £1,000.00 sef cyfraniad ariannol tuag at Ddrysau Agored eleni - mae £1,000.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.

(b) SIAMBR FASNACH RHUTHUN

I dderbyn llythyr gan Gadeirydd y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £2,600.00 tuag at siop Canolfan Dwristiaeth Rhuthun ar Sgwâr Sant Pedr (copi glas).

(c) CYMDEITHAS EFEILLIO RHUTHUN

I dderbyn llythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad blynyddol y Cyngor Tref o £500.00 tuag at gostau'r Gymdeithas Efeillio – mae £500.00 yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.

(ch) CYMDEITHAS DDINESIG RHUTHUN A'R CYLCH

I dderbyn llythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at blac addas i goffau Edward Pugh (copi gwyrdd).

(d) CLWB ROTARY RHUTHUN

I dderbyn ac ystyried llythyr (ynghyd a Thaflen Ariannol) gan y Mudiad uchod yn gofyn am Gyfraniad Ariannol tuag at y Rasys Mulod a Diwrnod Hwyl eleni i'w gynnal ar ddydd Sadwrn, 30 Awst 2014 yng Nghae Ddôl (copi melyn).

10. DRYSAU AGORED SIR DDINBYCH – PARCIO RHAD AC AM DDIM

I ystyried Sadwrn, 27^{ain} Medi 2014 fel 'Diwrnod Parcio Rhad ac am Ddim'.

11. CYMORTH LLIFOGYDD RHUTHUN CYFYNGEDIG

I gadarnhau cau'r Cwmni uchod ac i anfon cais i Dŷ'r Cwmniöedd gyda ffi o £10.00.

12. GWOBRWYON DINESYDD DA

I dderbyn rhagor o fanylion gan gynnwys enwebiadau ar gyfer y Gwobrwyon uchod.

13. CYNLLUNIAU'R DREF

I dderbyn ac ystyried llythyr gan Gyngor Sir Ddinbych (copi gwyrdd).

14. ADRODDIAD YR HEDDLU – SIR DDINBYCH

I dderbyn llythyr oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru (copi gwyrdd).

15. STRYD YN RHUTHUN

I dderbyn ac ystyried e-bost oddi wrth Mr Estyn F. Hughes (copi melyn).

16. GWASTRAFF BAW CWN – ARWYDDION TRIONGL

I dderbyn ac ystyried e-bost oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych (copi melyn).

17. CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2014

I dderbyn a chymeradwyo'r Cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014 (amgaeedig).

18. DATGANIAD ARIANNOL

I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31^{ain} Mawrth 2014 copi gwyrdd).

19. CYFRIFON I'W TALU

I gymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

A.B.	Canda Copying Ltd	Hurio ffotogopiwr		129.17
543	Sandra Williams	Cyfieithu		90.00
544	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		172.40
545	Capel Pendref	Llifoleuadau 2013 / 4		47.72
546	Eglwys Sant Pedr	Canu'r Hwyrghloch		156.00
547	Dafydd Williams	Norton gwrth-firws 2013 a 2014		59.98
548	Zurich Municipal	Premiwm Yswiriant (Llwybr Celf)		610.46
549	Cymdeithas Cyngorau Trefi a Chymunedau Mwyaf Gogledd Cymru	Cinio x 2 – Cyfarfod yn Y Trallwng.		29.00
550	Cyngor Tref Dinbych	Tocyn Dawns Elusenol x 1		30.00
551	Zurich Management Services	Adnewyddu Aelodaeth Gwasanaeth Cyngori Llywodraeth Leol	*	114.00
552	Glasdon U.K. Limited	Sedd Draddodiadol Larbreck	*	660.93
553	Canda Copying Ltd	Copiâu ychwanegol - du a gwyn	*	30.07
554	Canda Copying Ltd	Copiâu ychwanegol - lliw	*	53.86
555	Scottish Power	Goleuadau Nadolig 2013 / 14	*	103.07

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £164.66)

20. CYFLOG CLERC Y DREF

I dderbyn manylion.

21. LWFANS Y MAER

I dderbyn manylion oddi wrth Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol ac i drafod Lwfans y Maer o hyn ymlaen (copi pinc).

22. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

I gadarnhau dyddiadau cyfarfodydd nesaf o'r Cyngor Tref fel:

Cyfarfod Blynnyddol – Nos Lun, 19 Mai 2014 yn Swyddfeydd y Cyngor am 7:00 p.m.

Cyfarfod Arferol – Nos Fawrth, 27 Mai 2014 yn Swyddfeydd y Cyngor am 7:00 p.m.

